



TAG Uwch

586/51

CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY6 **DEFNYDDIO'R IAITH A** **GWERTHFAWROGI** **RHYDDIAITH A BARDDONIAETH** *(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD MAWRTH, 17 Mehefin 2008

3 awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch y **pedwar** cwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol a chyfeirio at farn eraill lle bo hynny'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Dylech dreulio tuag **AWR** ar bob adran.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Oherwydd gofynion pwysoli bydd y cyfrifiadur yn lluosu'r marciau fel a ganlyn:

	Marciau ar y papur	Pwysoli	Marciau Terfynol
Adran A	90	× 1	90
Adran B	40	× 3	120
Adran C	60	× 1.5	90

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

ADRAN A – RHYDDIAITH

1. Darllenwch yn ofalus hanes y gŵr a'i wraig yn byw yn eu tlodi yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf yn un o gymoedd y de, yna atebwch y cwestiynau a ganlyn.

Wedi gorffen botymu ei chôt, edrychodd Bronwen ar ei thraed. Yna troes ei phen dros ei hysgwydd i edrych a oedd twll yn ei hosan. Yna edrychodd ar y lle a wisgasai'n denau o gwmpas poced ei chôt. Gwnâi hyn i gyd yn agwedd un yn ymwybodol o'i thlodi ac eisiau bod yn dwt arni.

Ar gadair galed ar yr aelwyd eisteddai Idris, ei gŵr, â'i ben i lawr, yn edrych i'r tân fel y bydd dynion sydd wedi pwdu wrth yr holl fyd. Wrth siarad â'i wraig cyfarchai'r lle tân, ond nid hi.

Cychwyn i gerdded gyda'r Ffrynt Unedig yn erbyn y Praw Moddion yr oedd Bronwen, ei gŵr wedi pallu dod. Daliai ei gobaith hi o hyd. Nid oedd y ddau ond pump ar hugain oed, ac ni welsent ddim o gyflog er pan briodasent. Mewn cegin dan-ddae'r yr oeddent yn byw, cegin a fuasai unwaith yn perthyn i'r tŷ uwchben, a phantri'r gegin oedd eu hystafell wely. Yr oedd Bronwen yn bryderus wrth ddweud yr hyn a ddywedai bob amser wrth adael y tŷ.

“Wel, 'rw i'n mynd 'te.”

“Wyt, ginta; 'rwy'ti'n ddigon twp i fynd i wrando ar y ffylid. 'Rw i'n gweud taw ffrôd yw'r blydi lot ohonyn nhw a rwy'ti'n bradu d'amser a dy sgitshe i fynd i wrando ar shwd sothach. *United Front! United*, myn yffar i! Mi fasen nhw'n lico torri gwddwg i gilydd bob un. Lot o les wnaiff dy gered ti, weda i. A dim iws iti ddod 'nôl yma gyda phen tost wedi gwrando ar eu sgrechen nhw.”

Cododd gan ddweud y frawddeg olaf. Tynhaodd felt y trywsus llwyd oedd yn rhy fawr iddo ac a ddisgynnai dros ei esgidiau. Rhoes ail ysgytiad iddo'i hun, troes ar ei sawdl ac aeth heibio i'r cyrten i'r ystafell nesaf, a gorweddodd ar y gwely.

Safodd Bronwen gan edrych arno. Bu agos iddi dynnu ei chôt ac aros gartref. Ond wrth feddwl am dreulio prynhawn Sul yn y twll hwn, cafodd ei gobaith ail hwb. Edrychodd ar ei gŵr yn gorwedd yn y twll du di-ffenstr a elwir yn ystafell wely. Gorweddai'n dorch fel cath ar ben tas wair, ac iddi hi roedd tro yn ei gefn yn fynegiant o'i holl surni a'i chwerwedd yn erbyn bywyd i gyd.

Troes hithau ar ei sawdl a cherdded allan, ac fel y pellhâi oddi wrth ei gŵr codai ei chalon. Wrth fynd heibio i'r tomenni lludw a'r annibendod yn yr heol gefn cynyddai ei gobaith ac erbyn iddi gyrraedd yr heol fawr a'i thai mwy a glanach teimlai'n hyderus yn ei gobaith yn y Ffrynt Unedig.

Diwrnod cynnes, tawel yn nechrau Hydref ydoedd a'i ddylanwad ar galonnau dynion megis dylanwad dydd o Wanwyn. Cerddai llawer o'i blaen ar y ffordd i'r un man a gobeithiai beidio â'u dal er mwyn iddi gael creu breuddwydion am ei dyfodol hi ac Idris – gwaith, cyflog, dillad gwell, tŷ fel y rhai yr âi heibio iddynt yn awr, a phlant. Ymhen tipyn cyrhaeddodd grib y bryn. Rhoes ei phwysau ar y wal a wahanai'r ddau gwm – y rhesi tai wedi eu gosod fel catrodau o filwyr ar hyd ochrau'r bryniau a'u ffenestri yng ngoleuni'r haul yn edrych fel botymau gloyw, yr afon rhyngddynt fel ffos gul.

Gwasg Gee (Cyhoeddwr) Cyf.

- (i) Cyflwynwch a dadansoddwch gynnwys y darn **yn eich geiriau eich hun.** [30]
- (ii) Dadansoddwch arddull y darn. [30]
- (iii) Ysgrifennwch am weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc, neu bynciau tebyg. Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [30]

(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)

ADRAN B – DEFNYDDIO'R IAITH

2. Disgrifiwch ddigwyddiad arbennig, a chithau'n llawn cynnwrf a hyder. Disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd a'ch teimladau. Gall y gwaith fod yn waith dychmygol. (Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen.) [20]
3. Cyfieithwch y darn canlynol i'r Gymraeg. [20]

Little is known today of Dafydd ap Gwilym apart from what he himself has chosen to reveal in his poetry. His family originated from the Cemais area in Pembrokeshire. In earlier generations they included several officials who had held positions of high authority under the English Crown.

Tradition places Dafydd's birth at Brogynin, a substantial mansion in the parish of Llanbadarn Fawr, a few miles north-east of Aberystwyth. A farmhouse still retains this name today, and his birth place could have been located near by. It is believed that he lies buried within the boundary of the monastery, Strata Florida. Several poems suggest that the neighbourhood of north Cardiganshire was more familiar to him than any other part of Wales. He appears to have travelled widely throughout the length and breadth of the country even as far afield as Anglesey. He may also have visited *Chester, whose famous Cross is the subject of a well-known poem. However there is no indication other than this that Dafydd ever travelled beyond the borders of Wales.

*Chester – Caer

ADRAN C – BARDDONIAETH

4. Dadansoddwch **bwnc** a **mynegiant** y gerdd isod gan Ceri Wyn Jones.

- Wrth ddadansoddi'r gerdd hon dylech gyfeirio at gerddi neu weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc neu bynciau tebyg.
- Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [60]

(Gallwch gyfeirio at weithiau perthnasol Cymraeg a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)

Gofal

(Cafodd Côr Aelwyd yr Urdd CF1 o Gaerdydd lwyddiant mawr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2003 ac mewn Eisteddfodau Cenedlaethol ers hynny.)

Yn nhyddynnod y ddinas,
 mae'n sôn mawr am noson mas;
 mae'r *Mochyn Du*'n canu'r dydd,
 mae'r *Cayo*'n morio cywydd
 a chôr yr adar bore
 yn harddu'r ffordd i'r *Halfway*.

I guriadau'r gwydrau gwin
 dan y sêr â'u dawns werin,
 hen gân yn ei hugeiniau
 yw'r gerdd dant ar balmant bae:
 cân yw hon o'n caeau ni,
 cân *Taf* yn acen *Teifi*.

Yn *nwst ein tyddynnod ni,
 'sdim sôn uwch afon *Teifi*
 am gywydd ac am gaeau,
 am lond bar o'r adar iau.
 Eiddo'r frân yw'r gân a'r gŵys,
 a'i hetifedd yw *Tafwys*.

*dwst – llwch

Mochyn Du, Cayo a *Halfway* – Tafarndai yng Nghaerdydd lle bydd Cymry ifanc yn cyfarfod.
 Mae afon *Teifi* yn rhedeg drwy Aberteifi, afon *Taf* drwy Gaerdydd ac afon *Tafwys* drwy Lundain.